Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.14 Buddsoddi mewn gwirfoddolwyr

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yw safon ansawdd y DU ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr. Os oes gwirfoddolwyr yn rhan o'ch mudiad chi, bydd ennill y safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn ei alluogi i wneud y gorau o'r bobl hyn sy'n adnodd gwerthfawr.

Mae'r Safon yn cynnwys naw o ddangosyddion o safbwynt arferion da rheoli gwirfoddolwyr, fe'i cefnogir gan 46 o arferion, ac mae'n seiliedig ar bedwar maes rheoli gwirfoddolwyr allweddol:

- Cynllunio ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr
- Recriwtio gwirfoddolwyr
- Dethol a pharu gwirfoddolwyr
- Cefnogi a chynnal gwirfoddolwyr

Mae *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn cael ei reoli gan y pedair asiantaeth ddatblygu sy'n rhan o Fforwm Gwirfoddoli y DU: *Volunteering England*, *Volunteer Development Scotland*, *Volunteer Now* yng Ngogledd Iwerddon, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yng Nghymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) sy'n rheoli'r safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yng Nghymru. Mae'r safonau, yr asesu, a'r achredu yr un fath i bob mudiad, ble bynnag y
maent yn y DU. Ceir ychydig wahaniaeth yn y modd y caiff y safon ei rheoli ym mhob gwlad.

I gael mynediad at y safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* drwy WCVA mae angen i'ch mudiad fod wedi'i leoli yng Nghymru a bod â'i gyfeiriad cofrestredig a'i brif swyddfa wedi'u lleoli yma.

O fis Ebrill 2011 ymlaen, ceir tri opsiwn ar gyfer mudiadau sydd â diddordeb yn y safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yng Nghymru.

Opsiwn 1: Llwytho'r Safon i Lawr a'i defnyddio

I fudiadau sydd eisiau defnyddio *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* fel fframwaith a model ar gyfer gwella a datblygu'u harferion.

Gellir llwytho'r safon i lawr am ddim drwy glicio ar ddolen gyswllt y ddogfen *'IIV Standard'* ar dudalen groeso'r wefan www.investinginvolunteers.org.uk.

Unrhyw adeg, cewch ddewis bwrw ymlaen i gofrestru'n ffurfiol er mwyn mynd ati i weithio tuag at asesiad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* (opsiwn 2), neu gynnal Archwiliad Iechyd (opsiwn 3).

Opsiwn 2: Ennill y Dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

I fudiadau sydd eisiau cael statws achrededig ac ennill y dyfarniad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*.
Mae gofyn i chi gofrestru ar-lein, er mwyn cael mynediad at holl rannau perthnasol y wefan. Yna dilynwch y camau a amlinellir isod.

Cam Un: Dechrau Arni.
Ar ôl cofrestru ar-lein, bydd y tîm *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn cysylltu â chi i roi gwybodaeth ar sut i ddechrau gweithio tuag at y safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.*
Penodir cynghorydd i weithio gyda chi a bydd yn trefnu ymweliad cyflwyniadol, i drafod y broses gyfan a chytuno gyda chi ar y ffordd orau ymlaen i'ch mudiad.

Bydd gennych fynediad at yr holl wybodaeth, yr arweiniad a'r ffurflenni templed y bydd arnoch eu hangen ar y wefan.

Cam Dau: Hunan asesu
Gan ddefnyddio'r ffurflenni hunan asesu, rydych yn asesu arferion eich mudiad yn erbyn y naw dangosydd i weld sut maent yn cymharu. Bydd eich cynghorydd yn rhoi adborth ar hyn i chi ac yn awgrymu meysydd i'w datblygu.

Casglwch ynghyd bortffolio o dystiolaeth i gefnogi eich hunan asesiad.

Cam Tri: Datblygu
Rydych chi'n gwneud cynllun datblygu sy'n amlinellu'r camau y mae angen i chi eu cymryd i fodloni'r safonau.

Cymerwch yr amser y mae arnoch ei angen i weithio drwy hyn. Mae eich cynghorydd yno i roi cefnogaeth a chyngor pan fydd arnoch angen hynny.
Cam Pedwar: Asesu
Pan fyddwch chi a'ch cynghorydd yn teimlo eich bod yn barod, caiff asesydd ei benodi. Bydd yn cael eich hunan asesiad ynghyd â thri darn o dystiolaeth a ddetholwyd a bydd yn cysylltu â chi i wneud trefniadau ar gyfer yr ymweliad asesu.
Bydd hyn yn cynnwys cyfweliadau gyda sampl o wirfoddolwyr, staff ac ymddiriedolwyr.

Ar ôl eich asesiad, cewch adroddiad llafar oddi wrth yr asesydd yn dweud wrthych a ydych wedi cyrraedd y safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ai peidio. Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig maes o law.

Cam Pump: Sicrwydd Ansawdd
Caiff adroddiad yr asesydd ei archwilio a'i ddilysu i ddechrau gan Asesydd Arweiniol – asesydd profiadol yng Nghymru.

Yna caiff yr argymhelliad ei gyflwyno i Banel Sicrwydd Ansawdd y DU, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

Mae'r Panel Sicrwydd Ansawdd yn cymeradwyo penderfyniad yr asesydd ac yn anfon yr argymhelliad at Fforwm Gwirfoddoli'r DU i'w gymeradwyo. Mae'r dyfarniad yn ddilys o ddyddiad y panel Sicrwydd Ansawdd ymlaen am gyfnod tair blynedd.

Cam Chwech: Cynnal y Dyfarniad
Byddwch yn cael y dyfarniad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ac yn gallu defnyddio'r logo *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ar eich papurau pennawd a'ch cyhoeddiadau.

Cewch eich hysbysu mewn tair blynedd pan fydd yn barod i'w adnewyddu.

Opsiwn 3: Archwiliad Iechyd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Mae'n bosib bod y broses *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn ormod i'ch mudiad o ran cost a/neu ymrwymiad amser y staff.

Bydd cynghorydd hyfforddedig yn cyflawni'r Archwiliad Iechyd ar eich rhan. Rhoddir cynllun datblygu amlinell i chi a bydd yn nodi popeth y mae angen i chi ei wneud i ennill y Safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*.

Gall mudiadau ddewis mynd â phethau ymhellach os dymunant a bwrw ymlaen i'r Asesiad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*.

Cofrestrwch ar-lein, fel ar gyfer Opsiwn 2, gan ddweud yn glir pan fyddwch yn siarad â'r tîm *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* eich bod eisiau dilyn yr opsiwn Archwiliad Iechyd.

Bydd cynghorydd yn trefnu i ymweld er mwyn cynnal Archwiliad Iechyd.

Faint y mae'n ei gostio?

Mae cost ennill y safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn dibynnu ar faint a natur y mudiad.

O fis Ebrill 2011 ymlaen, dyma'r costau:

Costau cofrestru:
- Mudiadau gwirfoddol £250 – £350
- Mudiad statudol £500 - £700

Costau asesu:

- Mudiadau gwirfoddol £500 - £900
- Mudiad statudol £1800 - £2300

Mae TAW yn ychwanegol
Rhoddir disgownt i aelodau WCVA
Ni fydd mudiadau sy'n cael yr Archwiliad Iechyd ond yn talu'r gost gofrestru. Os ydynt wedyn yn dymuno mynd ymlaen ar unwaith i'r cam asesu, mae'r costau asesu arferol yn daladwy. Os oes mwy na chwe mis wedi mynd heibio ers yr Archwiliad Iechyd yna bydd tâl ychwanegol yn daladwy, er mwyn i gynghorydd asesu pa mor barod ydych i'ch asesu a'ch cynghori ar unrhyw gamau rhagofynol.

Os bu newidiadau sylweddol yn y strwythur staffio neu'r strwythur trefniadol, mae'n bosib yr argymhellir cefnogaeth ychwanegol gan gynghorydd (am gost ychwanegol).

Sut wyf fi'n dechrau arni?

1. Llwythwch y safon i lawr i weld a yw hwn yn feincnod priodol i'ch mudiad.
2. Trafodwch *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn eich mudiad, gyda'r ymddiriedolwyr/aelodau'r pwyllgor a gyda'r staff a'r gwirfoddolwyr. Penderfynwch a fyddai o fudd i chi gofrestru ar gyfer y broses *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* lawn, ynteu cynnal Archwiliad Iechyd yn unig ar hyn o bryd. Sicrhewch y ceir cefnogaeth lwyr i'ch penderfyniad.

3. Cofrestrwch ar-lein a siarad gydag aelod o'r tîm *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*.

4. Bydd anfoneb am y ffi gofrestru yn cael ei hanfon atoch, ac ar ôl cael taliad, bydd Cynghorydd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn cysylltu â chi.

Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Adnoddau rhad ac am ddim:

- Mae'n bosib y cewch hyd i'r atebion rydych yn chwilio amdanynt yn yr adran Cwestiynau Cyffredin ar y wefan.
- Gallwch hefyd chwilio drwy'r adran Rheoli Gwirfoddolwyr ar wefan WCVA, www.wcva.org.uk/volunteering sy'n cynnwys polisïau enghreifftiol, dalenni gwybodaeth a chyngor.
- Gall eich Canolfan leol i Wirfoddolwyr gynnig cyngor penodol er enghraifft ar ddatblygu polisïau a gweithdrefnau priodol.

Eraill – am bris:

- Ar ôl cofrestru, gallwch ddefnyddio llyfrgell Arferion Da *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ar-lein. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth a chyngor defnyddiol ac amrywiol.

- *The Complete Volunteer Manager* – arweiniad ar y we i bopeth y mae arnoch angen ei wybod am reoli gwirfoddolwyr - £8 i aelodau WCVA, £12 i rai heb fod yn aelodau.
- Recriwtio Gwirfoddolwyr – llawlyfr arferion da – cyhoeddiad gan WCVA £5 i aelodau WCVA, £7.50 i eraill.

Gallwch archebu cyhoeddiadau WCVA ar-lein yn www.wcva.org.uk/publications , drwy'r e-bost iiv@wcva.org.uk neu gan Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

Hyfforddiant

Mae'n bosib y bydd eich cyngor gwirfoddol sirol yn cynnig cyrsiau mewn rheoli gwirfoddolwyr.

Ewch ar y wefan www.coursesforcommunitiescymru.org.uk i ganfod beth sydd ar gael yn eich ardal chi.

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a Chwestiynau am Nawdd

Gyda llawer o gynlluniau grant, gan gynnwys Gwirfoddoli yng Nghymru, GwirVol, Gwirfoddolwyr y Mileniwm, y Gronfa Loteri Fawr, byddai cost ennill y safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* (neu gyfran ohoni) yn cael ei hystyried yn rhan berthnasol o gais yn ymwneud â gwella'r profiad neu'r cyfleoedd i wirfoddolwyr.

I fudiadau sy'n gwneud cais am dendrau drwy'r cynllun Porth Ymgysylltu, mae ennill y dyfarniad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn cyfrif fel dau bwynt yng ngham yr Holiadur Cyn Gymhwyso.

Byddai cynnal Archwiliad Iechyd yn cael ei ystyried yn dystiolaeth o roi sylw i arferion da, er na ellir gwneud dim honiadau am ennill y Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

Bydd y tîm *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn falch iawn o glywed am unrhyw brofiadau o safbwynt noddi. Er enghraifft, os ydych wedi cael nawdd i ennill y dyfarniad, neu os cafodd y dyfarniad ei gydnabod mewn rhyw fodd gan gyrff ariannu.

Byddwn yn parhau i lobio cyllidwyr yng Nghymru am gydnabyddiaeth well i'r Dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

I gael rhagor o wybodaeth

Gwefan Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr
www.investinginvolunteers.org.uk
iiv@wcva.org.uk
Ffôn 029 2043 1730

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:05/08/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WCVA
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk